

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

COFNODION Y CYNGOR YSGOL

Dyddiad y cyfarfod – Medi'r 13eg 2013

Amser – 10yb

Lleoliad – Neuadd yr ysgol

Preseanol

*Mrs Williams, Mrs Llwyd, Mr Williams,
Gwenno Jobbins, Math Williams,
Rhodri Davies, Glesni Jones,
Osian Williams, Mirain Gregory,
Lili-Gwen O'Brian, Gwion Hefin,
Lili Davies, Lloyd Ellis-Jones.*

Agenda

1. Gair o groeso gan y Cadeirydd

Croesawodd Gwenno Jobbins, y Cadeirydd, bawb i'r cyfarfod.

2. Sgwrs gan Mr Williams am is-bwyllgorau newydd Bl.5 a 6

Cychwynodd Mr Williams drwy longyfarch holl aelodau newydd y Cyngor Ysgol ar gael eu hethol i gynrychioli eu dosbarthiadau am y flwyddyn 2013-2014.

Yna, dangosodd restr o'r is-bwyllgorau newydd a fydd yn cael eu sefydlu'n fuan ymysg disgyblion Bl.5 a 6 (*Pwyllgor Iechyd a Ffitrwydd, Pwyllgor Taclo'r Toliedau, Pwyllgor Dyngarol, Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, Pwyllgor Gorau Chwarae-Cyd Chwarae, Pwyllgor Craffu Safonau, Pwyllgor Pin Mewn Papur* – bydd y rhain yn ychwanegol at y *Cyngor Ysgol* a'r *Pwyllgor Eco* sydd eisoes yn bodoli). Trafodwyd y canlynol:

- Bydd angen i un aelod o'r Cyngor Ysgol fod ar bob un o'r is-bwyllgorau, er mwyn adrodd yn ôl i'r Cyngor Ysgol am yr hyn maen nhw'n ei wneud.
- Bydd angen 8 aelod o Fl. 5 a 6 ar bob pwyllgor (4 o Fl.5 a 4 o Fl.6).
- Bydd pob un o athrawon CA2 neu Mr Williams yn gyfrifol am un pwyllgor yr un hefyd.
- Bydd angen i bob pwyllgor drefnu a gweithredu gweithgareddau penodol ar gyfer pob tymor.
- Bydd y Cyngor Ysgol yn sôn am hyn yn Ngwasanaeth CA2 ddydd Llun nesaf, a bydd Mr Williams yn ein helpu ni i drefnu aelodau pob pwyllgor. **Bydd angen i'r Cyngor Ysgol drefnu'r holl bwyllgorau a'u dyletswyddau yn derfynol erbyn dydd Gwener, Medi'r 20fed.**

3. Materion yn codi o'r dosbarthiadau

Gofynnodd Gwenno os oedd unrhyw faterion i'w trafod wedi codi yn ein dosbarthiadau yn ystod yr wythnos. Doedd dim i'w drafod. Edrychodd Gwenno yn y Bocs Syniadau wrth brif fynedfa'r ysgol, ond doedd dim cynigion yno chwaith. Penderfynwyd y byddai'n well rhoi bocsys syniadau unigol ym mhob dosbarth er mwyn annog plant i gynnig syniadau i'w trafod yng nghyfarfodydd y Cyngor Ysgol. **Angen i**



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

aelodau'r Cyngor Ysgol ddod â bocsys esgidiau gwag i'w defnyddio yn eu dosbarthiadau erbyn dydd Llun, Medi'r 16eg, os yn bosibl.

4. Logo i'r Cyngor Ysgol

Penderfynwyd y byddai'n syniad da cael logo arbennig ar gyfer y Cyngor Ysgol, er mwyn i ni fedru ei ddefnyddio wrth anfon llythyron/ei roi ar y bocsys syniadau yn y dosbarthiadau, ayyb. **Byddwn yn trefnu cystadleuaeth dylunio logo ymysg disgyblion CA2 yn fuan.**

5. Unrhyw faterion eraill

Gofynnodd Gwenno os oedd unrhyw faterion eraill i'w trafod, ond doedd dim.

Diolchodd Gwenno i bawb am ddod.

Cyfarfod yn gorffen – 10:35yb.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd dydd Gwener, 20fed o Fedi 2013

Cofnodion gan Glesni a Gwenno (Ysgrifennydd a Chadeirydd).